Theatrau Sir Gâr Carmarthenshire

Ffwrnes Lyric Glowyr

# Junior Ensemble Auditions

### for Beauty & The Beast at the Lyric Theatre, Carmarthenshire

## Saturday 5th October

Registration will take place from 12pm – 12.30pm – at the Lyric Theatre, Carmarthen.

**Please note the auditions are for dance and performance only.**

**The children will not be asked to sing.**

## Audition Day Information

- Children must be accompanied by a parent or guardian for the duration of the auditions and designated waiting areas will be appointed.
- The Lyric Theatre cannot be held responsible for any child not accompanied by a responsible adult while at the auditions.
- Children must be at least 9 years old and in year 4 of school on the first day of rehearsals and no older than 16 and in year 11 on the last day of the performances.

## Audition Guidelines

- Please wear comfortable clothing and suitable shoes (ideally jazz, soft dance trainers or ballet shoes please. Heavy Dance trainers, outdoor trainers, boots, or shoes are not suitable as we cannot see the child's footwork properly in these styles of footwear.)
- Avoid shiny leotards if possible as the identification stickers tend to fall off these.
- Please tie long hair back, ideally in a bun.
- Make sure your child has a soft drink with them (not fizzy) and slow energy release foods such as pasta, chicken, yoghurts, bananas, jacket potato etc. for snacks and lunch.
- Should your child be asthmatic, have allergies or any other condition which may require medication, please ensure they have this with them.  Please do let us know when registering the auditionee if you have any concerns.

Theatrau Sir Gâr Carmarthenshire

Ffwrnes Lyric Glowyr

## How the audition day works

The children will be taught a dance routine on the day and do not need to prepare anything in advance.

The audition will be in two parts (NB – this may change dependent on the number of auditionees).

We will endeavor to give all auditionees a suitable break during the day. The plan is to give a one-hour lunch - the time will be determined on the day. If your child has been recalled please ensure that they are back in the venue by their designated recall time. There will be no singing or reading of scripts on the audition day unless you have been specifically told in advance regarding this.

- All children will be auditioned in the from 13:00. Those who are successful will be recalled to the afternoon session. Those children who are unsuccessful will be allowed to go home.
- Children recalled for later session will be kept until the final cast are announced unless you are advised otherwise on the day.

Those children chosen for the panto Junior Ensemble and their parents will be asked to stay after the audition sessions for a chat about licensing, panto guidelines and will possibly have costume measurements taken at this time.

## What we are looking for

We are looking for 2 teams of 8 members to perform in the show and additional reserve team members. The teams will rotate the performances between them, but all teams will need to attend every rehearsal.

Throughout the day the audition panel will be looking for able performers who show capability in terms of dance as well as performance ability, enthusiasm, and the ability to follow instructions.

## If successful, what happens next?

Once we have decided upon our final Junior Ensemble, those that are remaining will be split into *'main team'* and *'reserve team'* members. They will then be given some paperwork stating which team they're in.

To perform in the pantomime all children must be granted a **performance licence**. A performance licence is a legal document that all children should be granted through their local council.

- The Lyric Theatre will email the application to parents which must be completed and returned by the deadline. The Lyric Theatre will then submit the application to the relevant authority.
- Without a performance license, a child will not be able to perform.

All children will be committed to rehearsals six days a week including weekend days and weekday evenings from Sunday 1st December. There will also be some daytime rehearsals during w/c 2nd December 2023 (which does mean missing school). The show runs from Thursday 12th December 2024 – Sunday 29th December 2024 inclusive. There are 25 performances in the run, which will be split between the 2 teams.

Your child **MUST** be available for the duration as no rehearsals or allocated performances can be missed.*

## What is a reserve team member?

A reserve team member is effectively a standby for the main team.

- A reserve could be pulled into a main team any time between the audition day and the first technical rehearsal.
- A child may pull out of a main team for numerous reasons beyond anyone's control or foreseeing in which case a reserve will be contacted.
- Reserves are **NOT** called to rehearse the show and will not perform unless a main team member withdraws completely from the show.

## What impact will the pantomime have on school?

Some rehearsals and performances will be during school time and children must be educationally able to miss some schooling. The Head Teacher will be required to authorise the absences required for performances as part of the licence application. If the Head Teacher will not authorise the absences, your child will be unable to perform.

We look forward to seeing you and your child at 12pm on Saturday 5th October 2024 and remind them to bring their best smile with them!

**Please note dates may alter up until the start of rehearsals.*

### All information subject to change

Theatrau Sir Gâr Carmarthenshire

Ffwrnes Lyric Glowyr

# Clyweliadau yr Ensemble Iau

### ar gyfer Beauty & The Beast yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin

## Dydd Sadwrn, 5 Hydref

Bydd cofrestru yn digwydd rhwng 12pm a 12.30pm – yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin.

**Sylwch fod y clyweliadau ar gyfer dawnsio a pherfformio yn unig. Ni ofynnir i'r plant ganu.**

## Gwybodaeth am Ddiwrnod y Clyweliad

- Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni rhiant neu warchodwr drwy gydol y clyweliadau a bydd mannau aros dynodedig yn cael eu pennu.
- Ni Theatr y Lyric yn gyfrifol am unrhyw blentyn nad yw yng nghwmni oedolyn cyfrifol tra yn y clyweliadau.
- Mae'n rhaid i blant fod o leiaf 9 oed ac ym mlwyddyn 4 yn yr ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr ymarferion a heb fod yn hŷn na 16 ac ym mlwyddyn 11 ar ddiwrnod olaf y perfformiadau.

## Canllawiau ar gyfer y clyweliadau

- Gwisgwch ddillad cyfforddus ac esgidiau addas (yn ddelfrydol esgidiau jazz, treinyrs dawnsio meddal neu esgidiau bale os gwelwch yn dda. Nid yw treinyrs dawnsio trwm, treinyrs awyr agored, bŵts neu esgidiau yn addas gan na allwn weld symudiadau traed y plentyn yn iawn yn y mathau hyn o esgidiau.)
- Dylech osgoi leotardau sgleiniog os yn bosibl gan fod y sticeri adnabod yn tueddu i gwympo oddi ar y rhain.
- Dylai gwallt hir gael ei glymu yn ôl, yn ddelfrydol mewn 'byn'.
- Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â diod feddal (heb swigod) a bwyd sy'n rhyddhau egni'n araf fel pasta, cyw iâr, iogwrt, bananas, tato pob ac ati ar gyfer byrbrydau a chinio.
- Os yw eich plentyn yn asthmatig, neu os oes ganddo alergeddau neu unrhyw gyflwr arall a allai fod angen meddyginiaeth, gwnewch yn siŵr bod gan eich plentyn y feddyginiaeth hon gyda nhw. Rhowch wybod i ni wrth gofrestru'r clyweliad os oes gennych unrhyw bryderon.

## Sut mae'r diwrnod clyweliadau hwn yn gweithio

Bydd y plentyn yn dysgu dawns ar y diwrnod ac nid oes angen iddo baratoi unrhyw beth ymlaen llaw.

Bydd y clyweliad mewn dwy ran (DS - gall hyn newid yn ddibynnol ar nifer y plant sy'n cael clyweliad).

Byddwn yn ymdrechu i roi seibiant addas i bob plentyn yn ystod y dydd. Y bwriad yw rhoi egwyl ginio o awr - bydd yr amser yn cael ei bennu ar y diwrnod. Os yw eich plentyn wedi cael ei alw'n ôl, gwnewch yn siŵr ei fod yn ôl yn y lleoliad erbyn ei amser penodedig. Ni fydd unrhyw ganu na darllen sgriptiau ar ddiwrnod y clyweliad oni bai eich bod wedi cael gwybod yn benodol ymlaen llaw am hyn.

- Bydd pob plentyn yn cael clyweliad o 13:00. Bydd y rhai sy'n llwyddiannus yn cael eu galw yn ôl i'r sesiwn ddiweddarach. Bydd y plant hynny sy'n aflwyddiannus yn cael mynd adref.
- Bydd plant sy'n cael eu galw'n ôl ar gyfer y sesiwn ddiweddarach yn cael eu cadw nes cyhoeddi'r cast terfynol oni bai y dywedir yn wahanol wrthych ar y diwrnod.

Gofynnir i'r plant hynny sy'n cael eu dewis ar gyfer yr Ensemble Panto Iau a'u rhieni aros ar ôl y sesiynau clyweliad i gael sgwrs am drwyddedu, canllawiau'r panto ac o bosibl cael mesur gwisgoedd ar yr adeg hon.

## Beth ydym ni'n chwilio amdano

Rydym yn chwilio am 2 dîm o 8 aelod i berfformio yn y sioe ac aelodau ychwanegol ar gyfer y tîm wrth gefn. Bydd y timau'n perfformio am yn ail, ond bydd angen i bob tîm ddod i bob ymarfer.

Drwy gydol y dydd bydd y panel clyweliadau yn chwilio am berfformwyr medrus sy'n dangos eu bod yn gallu dawnsio a pherfformio, sy'n frwdfrydig, ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau.

## Os bydd yn llwyddiannus, beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith y byddwn wedi penderfynu ar ein Hensemble Iau terfynol, bydd y rhai sy'n weddill yn cael eu rhannu'n aelodau o'r *'prif dîm'* a'r *'tîm wrth gefn'*. Yna byddant yn cael gwaith papur yn nodi pa dîm y maent ynddo.

I berfformio yn y pantomeim, rhaid i bob plentyn gael **trwydded berfformio.** Mae trwydded berfformio yn ddogfen gyfreithiol y dylai pob plentyn ei chael drwy ei awdurdod lleol.

- Bydd Theatr y Lyric anfon y ffurflenni cais ar e-bost at rieni, ac mae'n rhaid eu cwblhau a'u dychwelyd erbyn y dyddiad cau. Yna bydd Theatr y Lyric yn cyflwyno'r cais i'r awdurdod perthnasol.
- Heb drwydded berfformio, ni fydd plentyn yn gallu perfformio.

Bydd pob plentyn yn ymrwymedig i ymarferion chwe diwrnod yr wythnos gan gynnwys ar y penwythnos a gyda'r nos yn ystod yr wythnos o ddydd Sul 1 Rhagfyr. Bydd hefyd rhai ymarferion yn ystod y dydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 2 Rhagfyr 2023 (sy'n golygu colli ysgol). Bydd y sioe rhwng dydd Iau 12 Rhagfyr 2024 a dydd Sul 29 Rhagfyr 2024. Bydd 25 perfformiad i gyd, a fydd yn cael eu rhannu rhwng y 2 dîm.

Mae'n **RHAID** i'ch plentyn fod ar gael drwy gydol y cyfnod hwn, oherwydd ni ellir colli unrhyw ymarferion na pherfformiadau.*

## Beth yw aelod o'r tîm wrth gefn?

Dyma aelod wrth gefn ar gyfer y prif dîm i bob pwrpas.

- Gellir tynnu aelod o'r tîm wrth gefn i'r prif dîm unrhyw bryd rhwng diwrnod y clyweliad a'r ymarfer technegol cyntaf.
- Gall plentyn dynnu'n ôl o'r prif dîm am nifer o resymau na ragwelwyd neu sydd y tu hwnt i reolaeth unrhyw ac os felly, cysylltir ag aelod i'r tîm wrth gefn.
- **<u>NID</u>** yw aelodau o'r tîm wrth gefn yn cael eu galw i ymarfer y sioe ac ni fyddant yn perfformio oni bai bod aelod o'r prif dîm yn tynnu'n ôl yn llwyr o'r sioe.
-

## Pa effaith fydd y pantomeim yn ei chael ar ysgol?

Bydd rhai ymarferion a pherfformiadau yn ystod amser ysgol ac mae'n rhaid bod y plant yn gallu colli rhywfaint o ysgol o safbwynt addysgol. Bydd gofyn i'r Pennaeth awdurdodi'r absenoldebau sydd eu hangen ar gyfer perfformiadau fel rhan o'r cais am drwydded. Os na fydd y Pennaeth yn awdurdodi'r absenoldebau, ni fydd eich plentyn yn gallu perfformio.

Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld chi a'ch plentyn am 12pm ddydd Sadwrn 5 Hydref 2024 a chofiwch atgoffa eich plentyn i wisgo'i wên orau!

**Sylwer y gall dyddiadau newid hyd nes dechrau'r ymarferion.*

.

### Gallai'r holl wybodaeth newid